# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion pwyllgor a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Fawrth 2020 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Bethan Lawton, Alan H. Jones, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Griffith Evan Thomas

2. Datgan diddordeb: Bu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant.

3. Derbyn cofnodion 17 Chwefror 2020:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101692 | £183.17 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101693 | £46.00 |
| B Gwilym | Teleffon | 101694 | £37.75 |
| Elusen Ambiwlans Awyr | Rhodd | 101695 | £50.00 |
| Clybiau Ffermwyr Ifanc | Rhodd | 101696 | £50.00 |
| Dail Dysynni | Rhodd | 101697 | £50.00 |
| Treialon Cwn Defaid | Rhodd | 101698 | £50.00 |
| B Gwilym | Costau teithio | 101699 | £408.60 |
| Zurich | Yswiriant | 101700 | £776.51 |
| Yr Urdd | Clwb Ieuenctid | 101701 | £1,125.93 |
| Cyng Simon Jones | Lwfans | 101702 | £150.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau.

5. Hosbis Dewi Sant - Cais i fynychu cyfarfod o'r cyngor:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r eitem gan y byddai sefyllfa Covid-19 yn effeithio ar y gallu i gynnal cyfarfodydd.

6. Gweinidogaeth Bro Ystumanner - Gwahoddiad i ddigwyddiad i ddathlu canmlwyddiant yr Eglwys yng Nghymru:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y gwahoddiad ond yn nodi y bydd y digwyddiad yn sicr o'i ail-drefnu yn sgil y pandemig Covid-19.

7. Zurich - Yswiriant:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y premiwm yswiriant gan gwmni Zurich.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Cil Cemmaes, Bryncrug, LL36 9RG (NP5/55/36E):

**PENDERFYNIAD:** I gyflwyno'r sylw canlynol:
Yr adeilad ddim wedi ei farcio yn glir ar y cais
Y cyngor yn dymuno cael gwybod beth fydd deunyddiau'r to
Yn cwestiynu addasrwydd y fynedfa o'r ffordd

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio – Dolau Gwyn, Bryncrug, LL36 9UL (NP5/55/126C):

**PENDERFYNIAD:** Dim gwrthwynebiad.

10. Cyfethol aelodau i'r Cyngor:

Adroddodd y Clerc bod llythyr wedi ei anfon at yr unigolion sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Gor-yrru drwy'r pentref:

Trafodwyd y sefyllfa o fodurwyr yn gor-yrru drwy'r pentref. Yr oedd cydsyniad bod y sefyllfa yn ddrwg o phob cyfeiriad, gyda traffig o gyfeiriad Llanegryn fwyaf peryglus.

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod offer i fesur cyflymder, gan bod yn rhaid cael tystiolaeth. Cafwyd hefyd wybodaeth am gynllun Go Safe sydd yn galluogi gwirfoddolwyr i fesur cyflymder.

**PENDERFYNIAD:** I roi y mater ar agenda mis nesaf
I estyn gwahoddiad i'r Heddlu fynychu cyfarfod o'r cyngor, gan hefyd roi cyfle i'r gymuned drafod y mater gyda'r Heddlu

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-yy ystafelloedd newid yn y pafiliwn yn fudr
-rhai o'r pyst sydd o amgylch y cae pêl-droed wedi torri
-dyfynbrisiau wedi eu derbyn ar gyfer siglen newydd: un o blastig sydd wedi ei ailgylchu yn £1,417.50 + TAW, a'i osod £800 + TAW. Siglen pren yn £1,199 + TAW, gosod £695 + TAW. Ni fyddai angen matiau diogelwch newydd.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ofyn wrth contractwr y cyngor i ddymchwel y siglen.
I archebu siglen o blastig sydd wedi ei ailgylchu.

13. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug:

**PENDERFYNIAD:** I adael y mater ar y bwrdd.

14. Clwb Ieuenctid Bryncrug:

Adroddwyd bod y clwb wedi cau am y tro oherwydd y sefyllfa ynghylch Covid19

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I drafod sefyllfa y clwb ieuenctid ym mis Mehefin.

15. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:
-Wedi mynychu cyfarfod yng Ngholeg Meirion-Dwyfor fel aelod o gyngor y Coleg. Y safle yn Nolgellau yn neud yn dda iawn, gyda'r campws ar y blaen ac yn cynnig llawer o gyfleon.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth

16. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod diffyg cysondeb yn nhrefniadau Cyngor Gwynedd i gasglu cynnwys biniau glas ailgylchu, gyda'r gweithlu wedi methu casglu wyth o weithiau ers mis Tachwedd. Yr oedd yr unigolyn am anfon llythyr cryf iawn at Gyngor Gwynedd i gwyno am y diffyg.

Nodwyd pryder bod pont ar-Ddyfi yn cau oherwydd llifogydd a bod y Cyngor yn dymuno gweld y bont newydd wedi ei chodi'n fuan.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Yn dilyn trafodaeth ar y sefyllfa y pandemig covid19 sydd o bosib am effeithio ar y gymuned, nodwyd bod y cynghorwyr yn agored i helpu eu cymdogion a'r gymuned.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:25pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................